

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Paratodau Cig (Cymru) (Diwygio) 2022**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi cael ei baratoi gan Swyddfa'r Prif Filfeddyg o fewn Adran Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Paratodau Cig (Cymru) (Diwygio) 2022.

Lesley Griffiths AS  
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**  
8 Mehefin 2022

# Rhan 1

## 1. Disgrifiad

Mae'r offeryn hwn ('Rheoliadau 2022') yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 (O.S. 2021/1) (Cy. 1) ('Rheoliadau 2021') i atal dros dro y gofyniad i baratoadau cig sy'n cael eu mewnfario o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) i Gymru gael eu rhewi yn ddwfn ar dymheredd o -18°C tan 31 Rhagfyr 2022.

Gwneir Rheoliadau 2022 o dan y pŵer a roddir gan baragraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (S.I. 2011/2379) (Cy. 252). Maent yn berthnasol i Gymru a deuant i rym ar 29 Mehefin 2022.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae gwaharddiadau a chyfyngiadau yn ofynion sy'n seiliedig ar y gyfraith sy'n atal neu'n cyfyngu ar allfario a mewnfario nwyddau penodol o drydydd gwledydd, os yw'r wlad y maent yn cael eu mewnfario iddynt yn credu ei bod yn bosibl y byddant yn peri risg i iechyd anifeiliaid, planhigion neu'r cyhoedd.

I sicrhau parhad yn dilyn y cyfnod gweithredu ar ôl i'r DU adael y UE, cyflwynodd Gweinidogion Cymru Reoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 (O.S. 2021/1) (Cy. 1)) ('Rheoliadau 2021') i ganiatáu mewnfario i Gymru o'r AEE rai cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a waharddwyd, yr effeithir arnynt gan waharddiadau a chyfyngiadau, o 1 Ionawr i 31 Mawrth 2021.

Mae'r ataliad dros dro ar y gwaharddiad wedi cael ei estyn yn flaenorol gan yr offerynnau canlynol:

- Gwnaed Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/376) (Cy. 117)), a estynnodd y gwaharddiad tan 30 Medi 2021.
- Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygiad) (Rhif 2) 2021 (O.S. 2021/977) (Cy. 231)) i estyn yr ataliad ar y gwaharddiad tan 31 Rhagfyr 2021. Roedd hyn yn galluogi cymhwyso rheolau mewnfario presennol i baratoadau cig oer tan

31 Rhagfyr 2021 yn unol â'r 'dull graddol' o reoli mewnfiorion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU;

- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021/1480) (Cy. 382).

Roedd yr estyniadau hynny'n galluogi cymhwyso rheolau mewnfiorion i baratodau cig oer i gyd-fynd â dull o ymdrin â rheolaethau ar y ffin ar gyfer Prydain Fawr gyfan, ac yn unol â'r estyniadau cyfatebol i'r 'cyfnod graddoli trosiannol', fel y'u diffinnir ym mharagraff 2 i Atodiad 6 i Reoliad a ddargedwir (EU) 2017/625.

#### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae Rheoliadau 2022 yn diwygio Rheoliadau 2021 i estyn yr ataliad dros dro presennol ar y gofyniad i baratodau cig sy'n cael eu mewnfiorio i Gymru o Aelod-wladwriaethau'r AEE, yr Ynysoedd Ffaro, yr Ynys Las neu'r Swistir gael eu rhewi'n ddwfn, gan sicrhau bod yr hawlfraint dros dro hon yn cyd-fynd â'r estyniad i'r cyfnod graddoli trosiannol y mae Llywodraeth y DU yn rhoi effaith iddo yn Rheoliadau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2022 ('Rheoliadau'r DU'). Bydd hyn yn caniatáu i baratodau cig o'r UE barhau i gael eu mewnfiorio mewn cyflwr wedi'u hoeri tan 31 Rhagfyr 2022.

Bydd Rheoliadau 2022 hefyd yn sicrhau dull cyson ar gyfer mewnfiorion ac yn rhoi eglurdeb cyfreithiol i fasnachwyr. Hebddynt, byddai'n anghyfreithlon i fasnachwyr fewnfiorio paratodau cig wedi'u hoeri o 1 Gorffennaf 2022. Gallai hyn gael effaith andwyol ar rai busnesau a'r cwsmer terfynol yng Nghymru, gan y byddai argaeledd rhai cynhyrchion yn cael ei gyfyngu.

Mae'r ataliad dros dro ar y gwaharddiad yn fesur cymesur, gan fod y risg i fioggiogelwch y mae'r nwyddau hyn o'r gwledydd hynny'n ei pheri yn isel, wrth i'r polisi ar gyfer y tymor hir gael ei ddatblygu. Mae'r nwyddau hyn yn cael eu mewnfiorio ar hyn o bryd, ac nid oes unrhyw bryderon i iechyd y cyhoedd mewn perthynas â'r cynhyrchion hyn, gan fod y DU a'r UE yn masnachu'r nwyddau hyn yn rhydd o fewn Marchnad Sengl yr UE.

#### **5. Yr hyn mae'r offeryn yn ei wneud**

Mae Rheoliad 2 o Reoliadau 2022 yn diwygio Rheoliadau 2021 i estyn yr ataliad dros dro ar y gofyniad i baratodau cig gael eu rhewi'n ddwfn pan fyddant yn cael eu mewnfiorio i Gymru o Aelod-wladwriaethau'r AEE, yr Ynysoedd Ffaro, yr Ynys Las neu'r Swistir tan 31 Rhagfyr 2022.

Ers diwedd y cyfnod gweithredu ar ôl i'r DU adael yr UE, mae busnesau ac awdurdodau cymwys wedi gorfod bodloni gofynion helaeth gan yr UE a'r DU pan fyddant yn symud nwyddau o dan y berthynas fasnachu newydd â'r UE. Mae

llawer o fusnesau ac awdurdodau cymwys yn wynebu heriau a diffyg adnoddau wrth baratoi ar gyfer newidiadau o'r fath o fewn cyfnod byr, wrth ymdrin â'r ymateb i bandemig COVID-19.

Heb yr offeryn hwn, byddai ceisio cydymffurfio â'r gofyniad i rewi'n ddwfn, a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer 1 Gorffennaf 2022, yn creu cryn berygl o fewn y sector, a tharfu ar y gadwyn cyflenwi bwyd i Brydain Fawr.

## **6. Ymgynghoriad**

Nid yw'r gofyniad am ymgynghoriad yn codi o dan Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011. Felly, nid yw Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori mewn perthynas â'r offeryn hwn. Fodd bynnag, bu trafodaethau helaeth ledled Prydain Fawr â rhanddeiliaid o fewn y diwydiant bwyd-amaeth ac â phartneriaid cyflawni sy'n cyfrifol am reolaethau ar y ffin (fel awdurdodau ffiniau lleol, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a'r Asiantaeth Safonau Bwyd) ers Ionawr 2021.

Yn ogystal, mewn perthynas â rheoliadau'r DU, cafodd ymarfer ymgynghori byr, wedi'i dargedu, ei gynnal gan Lywodraeth y DU rhwng 25 a 30 Mai 2022. Roedd yn crynhoi'r newidiadau i'w gwneud gan y Rheoliadau hynny ac yn gwahodd sylwadau. Roedd yr ymgynghoriad wedi'i dargedu at randdeiliaid allweddol yn y sector amaeth-fwyd, gan gynnwys y rhai yng Nghymru, fel sefydliadau masnach a diwydiant cynrychiadol, grwpiau â diddordeb ac awdurdodau cymwys.

Roedd yr ymgynghoriad yn cydnabod nad oedd diwygiad a wnaed gan Reoliadau'r DU i Reoliadau Paratodau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Lloegr) (Ymadael â'r UE) 2020 (y mae eu heffaith yn adlewyrchu Rheoliadau 2022) yn berthnasol i Gymru, ond hefyd y byddai Gweinidogion Cymru yn cyflwyno diwygiadau cyfatebol mewn deddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru yn unig.

## **7. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Mae swyddogion o'r farn bod hyn yn rhan o'r broses bontio rhwng gadael yr Undeb Ewropeaidd a sefydlu cyfundrefn y DU ar gyfer rheoli ffiniau a mewnforyn yn y tymor hir. Mae Rheoliadau 2022 yn diwygio is-ddeddfwriaeth bresennol i estyn yr ataliad dros dro ar y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau ar baratodau cig o Aelod-wladwriaethau'r AEE, Ynysoedd Ffaro, yr Ynys Las neu'r Swistir am chwe mis arall. O ganlyniad, nid yw Rheoliadau 2022 yn newid polisi presennol (na'i effaith ddisgwyliedig) mewn unrhyw ffordd sylweddol.